**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2018**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Tony Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 9 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **6** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *Nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **7** | CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) Cadarnhau Jones Bros mewn perthynas â Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Gogledd Cymru fel y sawl a ffefrir i dderbyn perchnogaeth o'r safle ar ôl cwblhau'r Gorchymyn Prynu Gormodol;*<br><br>*(b) cytuno i'r Cyngor ymrwymo i Gytundeb Datblygu a Thrwydded Galwedigaethol, sy'n dderbyniol i'r Cyngor yn dod i rym ar ôl cwblhau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol ac yn dirprwyo awdurdod i drafod y telerau ac amodau i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol, Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid (e.e. y Swyddog Adran 151) ac*<br><br>*(c) argymell bod y Pwyllgor Cynllunio wedi awdurdodi cyflwyno'r Datganiad Breinio Cyffredinol, sef cam olaf cadarnhau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, gan roi ystyriaeth i (a)* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *a (b) uchod.* |
| **8** | ADRODDIAD DIWEDDARU GWASANAETH MEWNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i gyflwyno'r contract i'r cynigydd a ffefrir fel y nodwyd o fewn yr adroddiad.* |
| **9** | EIDDO AR RODFA'R GORLLEWIN A STRYD SUSSEX, Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo caffael tir ac adeiladau Cam 1 a chwblhau Dewis i gaffael tir ac adeiladau Cam 2 yn amodol ar y telerau canlynol -*<br><br>• *mae'r caffaeliad arfaethedig wedi'i ariannu 100% yn allanol ac nad oes costau refeniw cysylltiedig ag unrhyw un o'r caffaeliadau. Os am unrhyw reswm nad yw'r arian grant ar gyfer y cynnig yn cyrraedd yna ni ddylai'r caffaeliad symud ymlaencyn cyflwyno unrhyw Rybudd Dewis i gaffael tir ac adeiladau Cam 2, mae'n rhaid i'r Cyngor fodloni'r un amodau cyn derbyn cymeradwyaeth i gyflwyno'r Rhybudd*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **10** | SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo bod gwaith datblygu pellach yn cael ei wneud ar y safleoedd fel yr argymhellwyd yn Atodiad 4 yr adroddiad er mwyn symud i'r Cam Cais Cynllunio.* |